Bwriedir y canllawiau isod fel fframwaith i Gyfadrannau ac Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol drefnu eu sesiynau cynefino iechyd, diogelwch ac amgylchedd lleol.

Rhagarweiniad

Gofynnir i bob aelod newydd o staff, yn cynnwys y rheiny sy'n symud i swyddi newydd o fewn i'r Brifysgol, gwblhau'r Adroddiad Cynefino Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd. Dylid llenwi'r ffurflen o fewn pythefnos ar ôl dechrau'r swydd newydd, ac mae'r ffurflen ar gael yma: https://www.aber.ac.uk/cy/hse/training/hseinduction/.

Ar ôl ei llenwi, dylai'r Ffurflen Adroddiad Cynefino Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd gael ei chadw yn lleol yn y Cyfadran neu'r Adran, er mwyn monitro'r gofynion hyfforddi a nodir a sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau.

Mae'n bwysig nodi y bydd natur a manylion y wybodaeth a ddarperir yn y sesiwn cynefino iechyd, diogelwch ac amgylchedd lleol yn amrywio gan ddibynnu ar y swydd(i) penodol fydd yn cael ei/eu g/cyflawni gan yr unigolyn/unigolion.

Sesiynau Cynefino Canolog

Yn y llythyr cyflogi, gwahoddir pob aelod newydd o staff i fynychu sesiwn cynefino canolog. Trefnir y sesiynau hyn gan yr Adran Adnoddau Dynol, ac fe'u cynhelir bob pythefnos (bob yn ail fore Llun am 9:30 y.b.) yn yr Adran Adnoddau Dynol, Uned 12 Parc Gwyddoniaeth. Yn y sesiynau hyn, bydd aelod o'r Tîm Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd yn rhoi cyflwyniad byr i drefniadau iechyd, diogelwch ac amgylchedd y Brifysgol yn ganolog. Bydd y mynychwyr yn dysgu am ystyriaethau craidd iechyd, diogelwch ac amgylchedd megis Polisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol, y drefn ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau, a manylion cyswllt y Tîm Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd.

Rhaid i'r wybodaeth a gyflwynir yn y sesiynau hyn gael eu hatgyfnerthu gan sesiynau cynefino lleol er mwyn cyflwyno gwybodaeth am drefniadau a gweithdrefnau lleol sy'n berthnasol i'r gwaith neu'r gweithgareddau a gyflawnir gan yr unigolyn. Bydd y canllawiau isod yn rhoi gwybodaeth bellach am y prif ystyriaethau a gwybodaeth y dylid eu cynnwys yn y sesiynau cynefino lleol.

Unigolyn Cyfrifol

Gall y Sesiynau Cynefino Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd lleol gael eu darparu gan unrhyw unigolyn cymwys yn y Cyfadran neu'r Adran Gwasanaethau Proffesiynol. Dirprwy Is-Ganghellor y Cyfadran neu Bennaeth yr Adran Gwasanaethau Proffesiynol ddylai bennu'r unigolion sy'n gyfrifol am ddarparu'r sesiynau cynefino. Gall y cyfryw unigolion gynnwys rheolwyr llinell neu gydlynwyr iechyd a diogelwch. Lle bydd sesiynau cyflwyno yn cael eu darparu gan wahanol aelodau staff, efallai bydd y Cyfadran neu'r Adran Gwasanaethau Proffesiynol yn dymuno paratoi templed, i sicrhau cysonder yn y wybodaeth a ddarperir i wahanol aelodau staff.

Ymgyfarwyddo â'r Ardal Waith

Dylai'r sesiwn cynefino gynnwys cyflwyniad i drefniadau lleol a materion sy'n ymwneud ag iechyd, diogelwch ac amgylchedd, a chynnwys cwblhau'r adrannau isod ar y Ffurflen Adroddiad Cynefino Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd:

1. Trefniadau Diogelwch Tân

2. Trefniadau Cymorth Cyntaf
3. Gweithdrefn Cofnodi Digwyddiadau
4. Cofnodi Problemau neu Namau
5. Polisïau a Gweithdrefnau Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd
6. Ymwybyddiaeth o Ddyletswydd i Atal
7. Rheolau a Gweithdrefnau Diogelwch y Cyfadran / Adran Gwasanaethau Proffesiynol
8. E-ddysgu Hanfodion Iechyd a Diogelwch
9. Arall (fel sy'n briodol)

Mae'r rhestr wirio yn Atodiad 1 yn rhoi enghreifftiau o'r wybodaeth y dylid ei hystyried a'i darparu mewn sesiynau cynefino iechyd, diogelwch ac amgylchedd lleol.

Polisïau a Gweithdrefnau

Dylai pob aelod newydd o staff fod yn ymwybodol o brif bolisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol. Yn amodol ar y gwaith fydd yn cael ei gyflawni, gall fod angen gwybodaeth waith eang o Bolisïau penodol eraill (e.e. Polisi Gweithio ar eich Pen eich Hun, Polisi Pobl Ifainc, a.y.y.b.). Cyfeirir cydweithwyr yn ogystal at bolisïau a gweithdrefnau perthnasol mewn meysydd penodol wrth iddynt gwblhau'r modiwlau E-Ddysgu Hanfodion Iechyd a Diogelwch (gweler yr adran nesaf).

Ceir manylion Polisïau Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd Prifysgol Aberystwyth yma: https://www.aber.ac.uk/cy/hse/policy/.

Ceir manylion polisïau a gweithdrefnau iechyd, diogelwch ac amgylchedd canolog yma: https://www.aber.ac.uk/cy/hse/proc-prac/.

Dylid cynnwys gweithdrefnau ac arferion lleol y gwaith a wneir yn y Cyfadran neu'r Adran Gwasanaethau Proffesiynol yn Llawlyfr Iechyd a Diogelwch y Cyfadran / Adran Gwasanaethau Proffesiynol.

Hanfodion Iechyd a Diogelwch

Disgwylir i bob aelod newydd o staff gwblhau modiwlau perthnasol y cwrs hyfforddiant E-Ddysgu Hanfodion Iechyd a Diogelwch. Pennir y modiwlau perthnasol trwy ymgynghori â'r rheolwr llinell priodol. Mae'r modiwlau sydd ar gael yn ymwneud â'r pynciau iechyd, diogelwch ac amgylchedd mwyaf cyffredin ac yn rhoi cyflwyniad eang i'r prif egwyddorion ac ystyriaethau sy'n gysylltiedig â phob pwnc penodol. Dylech allu cwblhau pob modiwl o fewn rhyw 10-15 munud. Mae'r deunydd ar gael trwy ddilyn y camau isod:

1. Mewngofnodwch i AberLearn Blackboard: https://blackboard.aber.ac.uk/;
2. Cliciwch ar y tab 'Fy Modiwlau' ar dde uchaf y tudalen;
3. O dan 'Rhestr Modiwlau 2018-19' fe welwch 'BBHS001: Health, Safety & Environmental Training / Hyfforddiant Iechyd, Diogelwch ac Amgylcheddol' – Dewiswch y modiwl hwn;
4. Cliciwch ar 'Ddogfennau'r Cwrs' a fydd yn dangos y modiwlau sydd ar gael.

Bydd cydweithwyr sy'n mynychu'r sesiynau cynefino canolog yn cael mynediad i'r modiwlau hyn yn awtomatig ac yn derbyn gwybodaeth am fynediad gan y Tîm Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd. Gall cydweithwyr sydd heb, neu sy'n dymuno dilyn hyfforddiant diweddaru, gofrestru eu hunain ar y modiwlau, neu ofyn am fynediad trwy gysylltu â'r Tîm Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd: hasstaff@aber.ac.uk neu ar estyniad 2073.

Mae'r pecyn yn cynnwys modiwlau sy'n ymwneud â'r pynciau canlynol:

1. Ymwybyddiaeth Amgylcheddol
2. Ymwybyddiaeth o Asbestos
3. Osgoi Trais
4. Trafod Sylweddau Peryglus
5. Mynd i'r Afael ag Iechyd a Diogelwch
6. Codi a Chario yn Ddiogel
7. Rheoli Peryglon Galwedigaethol ar y Ffordd
8. Wynebu Bygythiad Tân
9. Cofnodi Digwyddiadau Iechyd a Diogelwch
10. Deall Straen
11. Gweithio mewn Mannau Uchel
12. Gweithio'n Ddiogel gyda Chyfrifiaduron

I gael rhagor o wybodaeth sy'n berthnasol i'r modiwlau hyn, ewch i: https://www.aber.ac.uk/cy/hse/training/hseessentials/.

Hyfforddiant

Yn ystod y sesiwn cynefino iechyd, diogelwch ac amgylchedd lleol, rhaid ystyried gofynion hyfforddiant ar gyfer pob aelod newydd o staff. Rhaid cael ymgynghori dwyffordd rhwng y gweithiwr a'r rheolwr neu oruchwyliwr i adnabod hyfforddiant hanfodol i'w galluogi i gyflawni'r swydd yn ddiogel. Gall hynny gynnwys, ond nid yw'n cael ei gyfyngu i, sesiynau yn y gweithle, dosbarthiadau mewnol a/neu gyrsiau allanol. Nodir cyrsiau yn dilyn ystyried y mesurau rheoli a nodir yn yr asesiadau risg ar gyfer y gweithgareddau a gyflawnir gan yr unigolyn, a/neu'r cyrsiau hyfforddi a nodir ym matrics hyfforddiant y Cyfadran neu'r Adran Gwasanaethau Proffesiynol.

Cynghorir cydweithwyr yn gryf i ystyried y Matrics Hyfforddiant Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd, sy'n awgrymu cyrsiau hyfforddiant ar gyfer swyddi penodol; mae'r matrics i'w weld yma: https://www.aber.ac.uk/cy/media/departmental/healthsafetyenvironment/Health,-Safety-and-Environment-Training-Matrix.pdf.

Ymhlith y cyrsiau poblogaidd a gynigir gan y Tîm Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd y mae:

- Codi a Chario
- Asesu Risg
- Swyddog Tân
- Cyflwyniad i Reoli Sylweddau sy'n Peryglu Iechyd (COSHH)
- IOSH Gweithio'n Ddiogel
- IOSH Rheoli'n Ddiogel

I gael rhagor o wybodaeth sy'n berthnasol i'r cyrsiau a gynigir gan y Tîm Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd, yn cynnwys manylion am gyrsiau sydd i ddod, ewch i: https://www.aber.ac.uk/cy/hse/training/. I gael cymorth ynglŷn â'r matricsau hyfforddiant, cysylltwch â'r Tîm Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd trwy hasstaff@aber.ac.uk neu estyniad 2073.

Ar ôl adnabod y gofynion o ran hyfforddiant, rhaid i'r Cyfadran neu'r Adran Gwasanaethau Proffesiynol sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei gyflawni, a'r manylion yn cael eu cofnodi. Ar ôl cwblhau'r holl gamau hyfforddiant a nodir, rhaid rhoi ystyriaeth i fonitro gofynion hyfforddiant ychwanegol wrth iddynt ddod i'r amlwg, ac ailhyfforddi'n achlysurol yn unol â safonau cydnabyddedig.

Llawlyfr Iechyd a Diogelwch

Mae Llawlyfr Iechyd a Diogelwch y Cyfadran neu Adran Gwasanaethau Proffesiynol yn fodd i Gyfadrannau ac Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol gyflwyno trefniadau iechyd, diogelwch ac amgylchedd lleol i aelodau staff newydd a phresennol.

Dylai Cyfadrannau ac Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol sicrhau bod y wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn cael ei hadolygu yn rheolaidd er mwyn i'r wybodaeth adlewyrchu trefniadau ac arferion cyfredol. Yn ystod y sesiwn cynefino lleol, dylid cyfeirio staff ato, a'u gwneud yn ymwybodol o'i leoliad (ar ffurf copi caled a/neu electronig) er mwyn iddynt allu cyfeirio ato drwy gydol eu cyfnod yn y swydd.

Dylai'r llawlyfr gael ei gymeradwyo gan Dirprwy Is-Ganghellor y Cyfadran a'r Rheolwr Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd cyn ei gylchredeg, a'i adolygu'n rheolaidd gan staff yn y Cyfadran neu'r Adran Gwasanaethau Proffesiynol.

Ar gyfer arweiniad neu gyngor ynghylch cwblhau neu ddiweddaru Llawlyfr Iechyd a Diogelwch y Cyfadran neu'r Adran Gwasanaethau Proffesiynol, cysylltwch â'r Tîm Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd ar hasstaff@aber.ac.uk neu estyniad 2073.

Atodiad 1 Rhestr Wirio ar gyfer Sesiynau Cynefino Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd Lleol

Fframwaith yw'r rhestr wirio hon er mwyn i'r aelod staff sy'n gyfrifol am ddarparu sesiynau cynefino iechyd, diogelwch ac amgylchedd lleol strwythuro'r wybodaeth sy'n cael ei darparu. Noder nad yw'r rhestr wirio yn un helaeth, gan y gall fod angen cyfarwyddiadau ychwanegol neu benodol mewn ambell achos.

Diogelwch Tân (Gwybodaeth bellach ar gael yma: https://www.aber.ac.uk/cy/hse/proc-prac/fire-safety/)		
Dangoswyd lleoliadau'r mannau canu'r larwm tân (torri gwydr)	☐ Do	☐ Naddo
Dangoswyd lleoliad y diffoddwyr tân agosaf	☐ Do	☐ Naddo
Disgrifiwyd sut a phryd i ganu'r larwm tân	☐ Do	☐ Naddo
Dangoswyd yr hysbysiad gweithredu yn achos tân a'r man ymgynnull priodol	☐ Do	☐ Naddo
Cymorth Cyntaf (Gwybodaeth bellach ar gael yma: https://www.aber.ac.uk/cy/hse/proc-prac/first-aid/)		
Nodwyd lleoliad y blychau cymorth cyntaf agosaf	☐ Do	☐ Naddo
Darparwyd enwau staff sydd wedi'u hyfforddi ar gyfer Cymorth Cyntaf yn y Gweithle a Chymorth Cyntaf Brys yn y Gweithle	☐ Do	☐ Naddo
Trefn ar gyfer adlenwi cyflenwadau cymorth cyntaf sydd wedi'u defnyddio neu wedi darfod	☐ Do	☐ Naddo
Rhifau Cyswllt Brys ar gael (e.e. 222 ar gyfer person cymorth cyntaf, 9999 o ffôn mewnol ar gyfer y Gwasanaethau Brys)	☐ Do	☐ Naddo
Cofnodi Digwyddiadau (Gwybodaeth bellach ar gael yma: https://www.aber.ac.uk/en/hse/proc-prac/incident-reporting/)		
Dangoswyd dulliau o gael gafael ar y ffurflen i gofnodi digwyddiadau	☐ Do	☐ Naddo
Disgrifiwyd y drefn leol ar gyfer ffurflenni cofnodi digwyddiadau, h.y. i bwy y dylid cyflwyno ffurflenni cofnodi digwyddiadau wedi'u llenwi	☐ Do	☐ Naddo
Esboniwyd pwysigrwydd cofnodi pob digwyddiad ac achosion a fu bron yn ddamwain	☐ Do	☐ Naddo
Rhoi Gwybod am Broblemau		
Darparwyd manylion am Ddesg Gymorth y Campws (campushelp@aber.ac.uk neu estyniad 2999)	☐ Do	☐ Naddo
Manylion strwythur hysbysu'r Cyfadran/Adran, yn cynnwys rheolwyr llinell a manylion y prif unigolion i gysylltu â nhw (e.e. Cydgysylltydd Iechyd a Diogelwch)	☐ Do	☐ Naddo
Polisïau Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd y Brifysgol (Gwybodaeth bellach ar gael yma: https://www.aber.ac.uk/en/hse/policy/)		
Dangoswyd y Poster Cyfraith Iechyd a Diogelwch agosaf	☐ Do	☐ Naddo
Anogwyd i ddarllen a dilyn Polisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol	☐ Do	☐ Naddo
Dangoswyd lleoliad Tystysgrif Yswiriant Atebolrwydd y Cyflogwr	☐ Do	☐ Naddo
Gwnaed yn ymwybodol o Bolisïau a Gweithdrefnau eraill y Brifysgol	☐ Do	☐ Naddo
Ymwybyddiaeth o Ddyletswydd i Atal (Gwybodaeth bellach ar gael yma: https://www.aber.ac.uk/en/hse/proc-prac/prevent/)		
Dangoswyd lleoliad gwefan Dyletswydd i Atal a'r deunydd hyfforddi	☐ Do	☐ Naddo
Anogwyd cwblhau deunydd hyfforddi Dyletswydd i Atal yn brydlon	☐ Do	☐ Naddo
Rheolau a Gweithdrefnau'r Cyfadran/Adran		
Darparwyd copi a/neu fynediad i Lawlyfr Iechyd a Diogelwch y Cyfadran / Adran Gwasanaethau Proffesiynol	☐ Do	☐ Naddo
Tynnwyd sylw at agweddau perthnasol o'r llawlyfr ar gyfer y swydd	☐ Do	☐ Naddo

E-Ddysgu Hanfodion Iechyd a Diogelwch (Gwybodaeth bellach ar gael yma: https://www.aber.ac.uk/cy/hse/training/hseessentials/)		
Sicrhawyd mynediad i Fodiwlau Hyfforddiant E-ddysgu Hanfodion Iechyd a Diogelwch	☐ Do	☐ Naddo
Pennwyd y modiwlau priodol i'w cwblhau gan yr aelod newydd o staff	☐ Do	☐ Naddo
Monitro cwblhau'r holl fodiwlau e-ddysgu perthnasol	☐ Do	☐ Naddo
Ystyriaethau Eraill (os ydynt yn berthnasol)		
Rhoddwyd Cyfarpar Diogelu Personol ar gyfer y swydd	☐ Do	☐ Naddo
Llenwyd y ffurflen gais ar gyfer Gyrrwr Awdurdodedig	☐ Do	☐ Naddo
Darparwyd copi o Restr Wirio Unedau Arddangos Gweledol	☐ Do	☐ Naddo
Dangoswyd y cyfleusterau lles a chegin, gan bwysleisio'r pwysigrwydd o'u cadw'n lân ac yn rhydd o rwystrau	☐ Do	☐ Naddo